# Atodiad 1

## Beth yw System Gaffael Ddeinamig?

Mae System Gaffael Ddeinamig yn system Gaffael gymeradwy i alluogi swyddogion Cyngor Sir Ddinbych i gynnal proses ymgeisio gystadleuol ar gyfer gwaith sydd angen ei gyflawni, mewn modd sy'n gyfleus ac ymarferol ac a reolir.

Mae'n wahanol i lwybrau caffael traddodiadol gan ei bod yn gweithredu fel 'marchnad agored' er mwyn i gyflenwyr ymuno naill ai'n barhaus neu'n aml iawn. Mae hyn yn caniatáu i brynwyr ehangu eu rhwydwaith o gyflenwyr yn barhaus a chroesawu busnesau newydd sy'n gallu diwallu eu hanghenion newidiol.

Mae'n caniatáu i swyddogion Cyngor Sir Ddinbych ddewis cyflenwyr cymwys ac o ansawdd, gyda sgiliau penodol a gallu sefydliadol drwy system e-Gaffael Proactis, a fydd yna'n cael eu derbyn i'r System Gaffael Ddeinamig i 'gategorïau' neu 'rannau' fel 'Contractwyr y mae eu hansawdd wedi'i wirio'.

Bydd y Cyflenwyr sy'n cael eu derbyn yn llwyddiannus i'r 'rhannau' dynodedig yn derbyn gwahoddiad i gyflwyno dyfynbris ar gyfer pecynnau gwaith penodol pan fyddant yn codi, o fewn cwmpas Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl.

**<u>Pam na ddylid defnyddio Fframwaith?</u>**

Yn wahanol i 'Gytundeb Fframwaith' sy'n cyfyngu nifer y Cyflenwyr am gyfnod oes y 'Fframwaith' ac yn rhwystro Cyflenwyr eraill, mae gan y System Gaffael Ddeinamig gyfleuster i dderbyn Cyflenwyr ar unrhyw adeg yn ystod ei gyfnod oes.

**Er enghraifft**

Os yw Sefydliad yn gwneud cais i fynd ar y System Gaffael Ddeinamig, ond nad yw'n diwallu'r meini prawf gofynnol ar y pryd, mae ganddynt gyfle i adolygu'r adborth a geir o'u cais cychwynnol, gwella lle bo'r angen ac ail-ymgeisio.

Os mai dim ond capasiti ar gyfer un 'rhan' sydd gan Sefydliad ar yr adeg hynny, gallant wneud cais ar gyfer 'rhan' arall yn ddiweddarach pan fydd amgylchiadau'n newid.

Os yw Sefydliad newydd yn cael ei greu yn y dyfodol, ni fydd rhwystr yn eu hatal rhag gwneud cais i gael eu derbyn yn ystod cyfnod oes y System Gaffael Ddeinamig.

Mae gan y System Gaffael Ddeinamig y gallu i ddatblygu a thyfu ac adnewyddu'r Cyflenwyr sydd arni drwy gydol y cyfnod oes.